# Wythnos Cymorth Cristnogol

# Taflen weithgareddau i blant

**Dyma Aurelia, sy'n ffermio yn Guatemala. Mae hi'n tyfu cacao (sy'n cael ei ddefnyddio i wneud siocled – blasus!), sinamon, ŷd a phinafalau.**

Mae gan Aurelia deulu mawr iawn, ac mae'r bwyd mae hi'n ei dyfu yn eu helpu i fwyta'n dda a hefyd yn ei helpu i ennill arian.

Ond mae stormydd garw a sychder ofnadwy (pan nad oes glaw am gyfnod hir iawn) wedi bod yn dinistrio ei chnydau. Roedd Aurelia yn gwybod bod ffordd o ddiogelu ei fferm a'i theulu. Roedd ganddi obaith!

Cyfarfu Aurelia â ffrindiau Cymorth Cristnogol, o'r enw Congcoop. Fe wnaethon nhw ymuno ag Aurelia i ddod o hyd i wahanol ffyrdd o ffermio er mwyn iddi allu helpu ei phlanhigion i dyfu, hyd yn oed pan oedd y tywydd yn ei herbyn.

Yn awr, mae Aurelia yn helpu ei chymuned drwy ddysgu iddynt beth mae hi wedi ei ddysgu am ffermio. Mae hi eisiau i fywydau pawb gael eu llenwi â gobaith.



Mae gan Aurelia lawer o wyrion ac mae hi'n caru pob un ohonynt yn fawr.

Mae hi'n ceisio tyfu gwahanol ffrwythau a llysiau er mwyn iddynt gael deiet cytbwys sy'n llawn fitaminau a mwynau i'w cadw'n iach.

**Mae Cymorth Cristnogol yn helpu ffermwyr fel Aurelia i dyfu planhigion sy'n aros yn iach er bod y tywydd yn gwaethygu.**

Mae ffermwyr angen hadau da, pridd da, gwrtaith da (bwyd planhigion) a dŵr da i dyfu bwyd da. Mae Aurelia a'i ffrindiau'n obeithiol eu bod bellach yn gallu rhoi mwy o fwyd i'w teulu i'w helpu i dyfu.

## Pwy sy'n eich helpu i dyfu?

Ysgrifennwch eu henwau neu tynnwch luniau ohonynt yn y pot planhigion a diolch i Dduw amdanynt.



## Guatemala

### Oeddech chi'n gwybod?



**Mae 37 llosgfynydd yn Guatemala.**



**Y cwetsal yw'r aderyn cenedlaethol.**



**Dyma un o'r llefydd cyntaf yn y byd lle cafodd siocled ei wneud.**

**Dysgwch yr adnod hon o'r Beibl sy'n ein hatgoffa ni o'r gobaith sydd gennym yn Nuw ac y gallwn ei rannu ag eraill, yn union fel mae Aurelia yn ei wneud. Lliwiwch neu addurnwch y gair allweddol isod a'i ganfod yn yr adnod.**


**Felly dw i'n gweddïo y bydd Duw, ffynhonnell gobaith, yn llenwi'ch bywydau gyda'r llawenydd a'r heddwch dwfn sy'n dod o gredu ynddo; ac y bydd yr Ysbryd Glân yn gwneud i obaith orlifo yn eich bywydau chi!**

Rhufeiniaid 15: 13

# GOBAITH

**Gadewch i ni weddïo dros Aurelia, ei theulu a phobl ledled y byd sy'n wynebu stormydd, sychder a llifogydd peryglus oherwydd newid yn yr hinsawdd.**

Tynnwch lun o haul neu gwmwl ac ysgrifennwch eich gweddïau y tu mewn. Gyda phwy allech chi rannu eich gweddïau?



Mae Cymorth Cristnogol yn aelod allweddol o Gynghrair ACT. Rhif elusen Cymru a Lloegr 1105851 Rhif cwmni 5171525. Mae enw a logo Cymorth Cristnogol yn nodau masnach Cymorth Cristnogol.
© Cymorth Cristnogol Mehefin 2025 J517038 Lluniau: Cymorth Cristnogol/Amy Sheppey